

Dau ŵr mewn dillad gwyn:

Edmund Owen

Llun:David Watmough. Dreamstime.com

Roedden nhw'n sefyll yno ar fynydd yr Olewydd a dyrnaid o bobl gerllaw yn syllu tua'r nef, a Iesu yn esgyn.

> 'Wŷr Galilea', meddent, 'pam yr ydych yn sefyll yn edrych tua'r nef? Bydd yr Iesu hwn, sydd wedi ei gymryd i fyny oddi wrthych i'r nef, *yn dod yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn mynd i'r nef'* (Actau 1:11).

Rhag ofn nad ydych yn barod i gredu gair bodau nefol, dyma eiriau cyfarwydd yr apostol Paul: 'Oherwydd bob tro y byddwch yn bwyta'r bara hwn, ac yn yfed y cwpan hwn, yr ydych yn cyhoeddi marwolaeth yr Arglwydd, *hyd nes y daw'* (1 Cor. 11:26). A rhag ofn nad ydych ychwaith yn barod i dderbyn gair apostol, wele eiriau'r Arglwydd Iesu ei hun i'w ddisgyblion nos Iau cyn y croeshoelio, ei fod yn mynd i baratoi lle iddynt yn nhŷ ei Dad: 'Ac os af a pharatoi lle i chwi, *fe ddof yn ôl, a'ch cymryd chwi ataf fy hun'* (Ioan 14:3). A dyna neges olaf Iesu i'r apostol Ioan ac i'w bobl, ar ddiwedd y Beibl: '*Yn wir, yr wyf yn dod yn fuan'* (Dat. 22:20).

Fe ddaw yn ôl 'yn yr un modd' ag yr aeth, yn gorfforol, yn ei berson. Nid dod yn ôl drwy ei Ysbryd. Fe ddaeth drwy ei Ysbryd ddydd y Pentecost, ac eto, rai dyddiau yn ddiweddarach (Actau 2:1-2; 4:31). Ar ben hyn, fe ddaeth yr Arglwydd Iesu sawl gwaith at ei Eglwys drwy ei Ysbryd ar hyd y canrifoedd – dyna yw'r adfywiadau grymus a brofwyd o bryd i'w gilydd. Fe ddaeth hefyd laweroedd o weithiau gyda dylanwad ysbrydol ar unigolion. Fe ddaw atom ynghanol gwahanol brofiadau bywyd: yn nerth mewn gwendid, yn gysur mewn profedigaeth, yn arweiniad mewn dryswch; yn y storm ac yn yr heulwen. Ond nid ei ailddyfodiad yw'r dyfodiadau hyn.

pan ddaw yr ail waith, fe ddaw yn ei berson

Pan ddaw yr ail waith, fe ddaw yn ei berson. 'Oherwydd pan floeddir y gorchymyn, pan fydd yr archangel yn galw, ac utgorn Duw yn seinio, bydd yr Arglwydd ei hun yn disgyn o'r nef' (1 Thes. 4:16). Yr Arglwydd ei hun, sylwer.

ac fe ddaw yn weledig

Ac fe ddaw yn weledig. 'Bydd yn dod', meddai'r ddau ŵr mewn dillad gwyn, 'yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn mynd i'r nef.' Fe'i gwelsant yn eu gadael; fe'i gwelir pan ddaw yn ôl. Dywedodd Iesu wrth yr archoffeiriad ar noson ei brawf: 'fe welwch Fab y Dyn yn eistedd ar ddeheulaw'r Gallu, ac yn dyfod gyda chymylau'r nef' (Marc 14:62), adlais o eiriau'r proffwyd Daniel: 'Gwelais un fel mab dyn yn dyfod ar gymylau'r nef... Rhoddwyd iddo arglwyddiaeth a gogoniant a brenhiniaeth' (Daniel 7:13-14). Gwelsai Daniel yn ei weledigaethau bedwar bwystfil anferth yn codi o'r môr, ond yn y bumed weledigaeth, nid anifail a welodd, ond rhywun ar ffurf dynol, 'mab dyn'. Fi yw'r mab dyn hwnnw, meddai Iesu.

fe'i gwelir yn eglur gan bawb

Pan ddaw'r ail waith, fe'i gwelir yn eglur gan bawb, megis y gwelir goleuni mellten yn fflachio o'r dwyrain hyd y gorllewin (Math. 24:27). Ac yn y bennod gyntaf o'r Datguddiad, adnod 7, ceir geiriau rhyfeddol: 'Wele, y mae'n dyfod gyda'r cymylau, a bydd pob llygad yn ei weld, ie, a'r rhai a'i trywanodd, a bydd holl lwythau'r ddaear yn galaru o'i blegid ef.' Y di-gred mewn gwae, ond pobl Dduw yn dechrau eu gwynfyd. Da y canodd David Saunders, Merthyr:

Gwelir Iesu'n ogoneddus
Yn ei ailddyfodiad glân;
Gwelir miloedd iddo'n plygu,
Na phlygasant iddo o'r blaen;
Gwelir hefyd
Fyrdd yn dechrau llawenhau.